

GRŴP YMGYNGHOROL DIOGELWCH GWYNEDD (GYD-G).



AMODAU GORCHWYL A PROTOCOLS.

2020.

www.gwynedd.llyw.cymru/digwyddiadau

AMODAU GORCHWYL A PROTOCOLS (GYD-G).

CYFLWYNIAD.

Mae Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Gwynedd (GYD-G) yn cyfarfod fel bo'r angen, i adolygu cynlluniau digwyddiadau a chynghori ar ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r GYD-G yn gweithredu oddi fewn i ffiniau daearyddol Cyngor Gwynedd.

Nid oes gan GYD-G rym na chyfrifoldebau cyfreithiol ac nid oes ganddo awdurdod i gymeradwyo na gwahardd cynnal digwyddiadau. Mae'n darparu cyngor annibynnol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros sicrhau digwyddiad diogel (gall fod gan gynrychiolwyr unigol o sefydliadau sy'n ffurfio'r GYD-G rym i ofyn i drefnwyr digwyddiadau gydymffurfio â'u goblygiadau cyfreithiol). Mynychir GYD-G ar sail wirfoddol er y gall berchennog y lleoliad neu rai eraill sy'n ymwneud â'r digwyddiad e.e. Awdurdod Lleol, ofyn am hynny.

Bydd GYD-G yn cynghori trefnydd digwyddiadau ynglŷn â chanlyniadau ei asesiad o'r cynllun digwyddiad. Os nad yw elfen berthnasol e.e. tân neu iechyd a diogelwch wedi ei ystyried fe wneir hynny yn glir i'r trefnydd ar y pryd.

Cyfrifoldeb y trefnydd digwyddiad yw gweithredu'n briodol. **Os mai'r Awdurdod Lleol yw'r trefnydd neu'r cyd drefnydd neu fod ganddo gyfrifoldebau cyfreithiol trwy fod yn gyfrifol am reoli'r eiddo / tir, ni all ddibynnu ar broses GYD-G i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol. Dylid cyflawni'r cyfrifoldebau cyfreithiol hynny ar wahân.**

Gall brofi'n anodd taro ar y cydbwysedd cywir wrth benderfynu pa ddigwyddiadau y dylid eu hystyried gan GYD-G Yr egwyddor arweiniol yw y dylid ystyried digwyddiadau sy'n cyflwyno risg diogelwch cyhoeddus sylweddol (pa unai yn nhermau nifer y bobl yn mynychu, neu natur y digwyddiad a / neu'r her i'r amgylchedd). Fodd bynnag nid oes angen i ddigwyddiadau bychan megis ffair bentref, lle na ddisgwylir niferoedd mawr ac / neu fod y digwyddiad yn un arferol mewn perthynas i'r gweithgaredd a weithredir, fynychu'r GYD-G.

Mae yn nod gan GYD-G bod digwyddiadau a gynhelir yng Ngwynedd yn cyrraedd safonau uchaf o ddiogelwch cyhoeddus a lles y cyhoedd, mynychwyr, gweithwyr a chystadleuwyr ym mhob digwyddiad. I'r diben hwn mae holl gyrff sydd yn ymwneud a diogelwch cyhoeddus yng Ngwynedd yn ymroddgar i gynnal GYD-G i gefnogi trefnwyr digwyddiadau i lwyfannu digwyddiadau diogel, cynaliadwy a llwyddiannus.

AMODAU GORCHWYL A PROTOCOLS (GYD-G)

PRIF RÔL A PHWRPAS GYD-G.

Prif rôl GYD-G yw darparu cyngor arbenigol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau sy'n cynnal digwyddiadau yng Ngwynedd i'w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau diogelwch a lles y cyhoedd. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth yma a sicrhau eglurder bydd y GYD-G yn gweithredu yn unol â'r amodau gorchwyl yma a gytunwyd, a chadw a chyflwyno cofnodion o'i weithgareddau a'r cyngor a roddwyd. Cynlluniwyd yr amodau gorchwyl i fod yn ddeinamig ac fe'u hadolygir yn rheolaidd, o leiaf unwaith y flwyddyn.

AMODAU GORCHWYL.

- I gynghori ar ddigwyddiadau, lleoliadau a'i amgylchoedd yn ôl y gofyn.
- I gynghori ynglŷn â gweithredu grym o dan ddeddfwriaeth Iechyd & Diogelwch a Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer y digwyddiadau a lleoliadau ac ar unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i ddigwyddiadau a lleoliadau.
- I gynghori ar weithgareddau gorfodaeth a dyletswydd gofal y llywodraeth leol a phartneriaid eraill yn unol â diffiniad deddfwriaeth berthnasol.
- I ddarparu fforwm i alluogi Awdurdod Lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu dull cydweithredol yng nghyswllt diogelwch a lles torf a gwylwyr mewn digwyddiadau.
- I dderbyn adroddiadau mewn perthynas â materion a ddarganfyddir gan aelodau o'r grŵp yn ystod archwiliadau.
- I dderbyn hysbysiad yng nghyswllt cyhoeddi unrhyw hysbysiad gwahardd ac unrhyw erlyniadau.
- Ni all GYD-G wneud unrhyw benderfyniad ar ran yr Awdurdod Lleol neu unrhyw gorff arall, **rôl ymgynghorol yn unig** sydd ganddo.
- Saif y cyfrifoldeb eithaf am ddiogelwch digwyddiad gyda'r trefnydd digwyddiad a'i dîm rheoli.
- Rhaid i aelodau craidd GYD-G ddatgan unrhyw wrthdaro diddordeb mewn perthynas ag unrhyw eitem a rhoi'r gerbron y GYD-G cyn unrhyw drafodaeth ar y mater hwnnw. Os ystyrir y diddordeb yn un niweidiol, yna dylai'r person hwnnw ystyried tynnu'n ôl.

AELODAETH GYD-G.

Mae'r adran yma yn cofnodi'r awdurdodau neu'r partneriaid a gynrychiolir ar y GYD-G.

- Bydd y GYD-G yn cynnwys personau sy'n berchen ar hynafedd, profiad, gallu, gwybodaeth a chymwysterau digonol ar faterion polisi strategol, materion ymarferol eu gwasanaethau er mwyn gallu cymryd penderfyniadau gweithredol ar ran eu gwasanaeth / corff ac eithrio ble mae'r rhain yn codi materion polisi newydd.

Bydd yr aelodau craidd yn cynnwys:

- Cadair (Cyngor Gwynedd).
- Gweinyddiaeth (Cyngor Gwynedd).
- Gwasanaethau arweiniol ar gyfer Gwarchod y Cyhoedd, Trwyddedu lechyd yr Amgylchedd ac lechyd a Diogelwch Cyngor Gwynedd.
- Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd Cyngor Gwynedd.
- Gwasanaeth Parciau a Morwrol Cyngor Gwynedd.
- Heddlu Gogledd Cymru.
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru.
- Parc Cenedlaethol Eryri.
- Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Trafnidiaeth Cymru – Llywodraeth Cymru.
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.
- Gwarchodwyr y Glannau.
- Cymdeithas Achub Mynydd Gogledd Cymru.

CYNYRCHIOLAETH WAHODDEDIG.

Y personau / partneriaid hynny a wahoddir i gyfarfodydd GYD-G i wneud cyflwyniadau neu gynnig cyngor i'r GYD-G ond nad ydynt efallai yn rhan o brosesau ffurfiol y GYD-G. Fodd bynnag rhoddir rhwydd hynt iddynt gyfrannu i unrhyw gyfarfod y gwahoddir hwy iddynt ac fe ystyrir / cofnodir eu barn.

Gall y canlynol gael eu gwahodd i unai holl gyfarfodydd GYD-G neu i un cyfarfod arbennig fel yr ystyrir yn briodol:

- GIC - Gwasanaethau lechyd Cyhoeddus.
- Cynghorau Gogledd Cymru - Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol.
- Cynrychiolaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd.
- Cynrychiolaeth arall perthnasol o'r Cyngor lleol megis rheolaeth gwastraff, lechyd a Diogelwch corfforaethol a.y.b.
- Gwasanaethau Cymorth Cyntaf gwirfoddol.

- Cynrychiolaeth Twristiaeth Lleol.
- Cynrychiolaeth Busnesau Lleol.
- Heddlu Cludiant Prydeinig.

Gall y Cadeirydd mewn trafodaeth a'r aelodau wahodd arbenigwyr eraill fel y mae'r Cadeirydd yn ystyried yn briodol er mwyn cynorthwyo'r GYD-G i ystyried unrhyw fater yn llawn.

GWEINYDDIAETH GRŴP YMGYNGHOROL DIOGELWCH GWYNEDD.

Mae'r adran yma yn rhoi gwybodaeth am weinyddiaeth gyffredinol GYD-G o apwyntiad y Gadair / gwasanaeth arweiniol i rôl cefnogaeth weinyddol a gweithdrefnau ymgynghorol ar gyfer GYD-G.

- Bydd y Gadair yn gynrychiolydd o Gyngor Gwynedd wedi ei gytuno'n flynyddol.
- Bydd Cyngor Gwynedd yn darparu cefnogaeth weinyddol i GYD-G a'r is-grwpiau neu fel y cytunwyd.
- Bydd GYD-G yn ymgynghori gyda holl aelodau craidd GYD-G cynrychiolaeth gwahoddedig, gwasanaethau Cyngor eraill a chyrrff cenedlaethol fel yr ystyrir yn briodol.

AMLDER CYFARFODYDD GYD-G.

- Bydd nifer cyfarfodydd GYD-G yn hyblyg, ac fe'u penderfynir gan amgylchiadau neilltuol ac fe fyddant yn benodol i ddiwyddiad. Gall unrhyw aelod craidd ofyn am gyfarfod arbennig; fe ystyrir gofynion o'r fath gan y Gadair.
- Fel rhan o'i gylch gorchwyl bydd gofyn i GYD-G gynnwys partïon gweithiol llai i fynd i'r afael â materion penodol sy'n berthnasol i ddiwyddiad neu leoliadau. Fe adroddir yn ôl am unrhyw beth sy'n deillio o'r grŵp yn ystod y cyfarfod GYD-G canlynol.

COFNODION.

- Fe drefnir pob cyfarfod ac fe gyhoeddir agenda pob GYD-G o flaen llaw ac fe gofnodir y cyfarfodydd.
- Fe anfonir y cofnodion i bob aelod o GYD-G, trefnydd y digwyddiad a phartïon eraill a benderfynir gan y Gadair yn dilyn pob cyfarfod GYD-G.

- Fe gynhelir crynodeb o gyfarfodydd GYD-G gan Gyngor Gwynedd fel cofnod cyhoeddus yn amodol i ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018.
- Fe weithredir protocol aml asiantaeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd ac awdurdodau cyhoeddus eraill ble gofynnir am wybodaeth o gofnodion GYD-G.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU AELODAU CRAIDD GYD-G.

Rôl Cadeirydd y GYD-G:

- I sicrhau fod y GYD-G yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn briodol.
- I sicrhau fod aelodaeth GYD-G yn adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â'r risgiau sydd yn gysylltiedig â materion iechyd a lles cyhoeddus.
- I sicrhau y rhoddir sylw addas i farn pob aelod o GYD-G yn cynnwys y rhai sy'n mynychu trwy wahoddiad.
- I gadw tros olwg ar yr holl gynlluniau er mwyn hwyluso dull cyson a chydweithredol.
- I weithredu fel cwndid rhwng y GYD-G a threfnydd digwyddiad a / neu dîm rheoli'r digwyddiad.
- I archwilio'r digwyddiad er mwyn sicrhau cydymffurfiaid gyda'r cynlluniau a gyflwynwyd a thynnu sylw at unrhyw ddiffygion a fyddai angen unrhyw weithred frys neu welliant.
- Mae'n gynorthwyol os yw Cadeirydd GYD-G hefo'r statws, cymwysterau, profiad a'r awdurdod perthnasol a'r amser i wireddu'r rôl.

Rôl y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Trwyddedu, Iechyd yr Amgylchedd a Gorfodaeth Iechyd a Diogelwch Cyngor Gwynedd.

- Fe gynrychiolir y gwasanaeth gan swyddog fydd yn mynychu pob cyfarfod o'r GYD-G neu ei ddirprwy apwyntiedig ef neu hi.
- I weithredu mewn rôl cyd-drefnol i'r GYD-G yng nghyswllt yr holl faterion perthnasol i ymwneud a materion Gwarchod y Cyhoedd, Trwyddedu, Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch.

- I roi cyngor technegol ac asesiad o ddogfennau cyhoeddedig sy'n ymwneud â Diogelwch Iechyd a Lles Cyhoeddus yn ystod digwyddiadau cyhoeddus a gwneud yn hysbys unrhyw oblygiad sy'n codi.
- I roi cefnogaeth dechnegol sy'n ymwneud â holl faterion perthnasol i'r digwyddiad i GYD-G.
- I ddarparu , monitro, gorfodi, adolygu arweiniad ac unrhyw amodau trwyddedu perthnasol a chynghori mewn ymgynghoriad ag aelodau GYD-G. Gall hyn gynnwys: cyngor ac arweiniad ar sicrhau diogelwch bwyd, iechyd a diogelwch, masnachu stryd, cyngor ar gyflenwad dwr, cymryd samplau ar gyfer archwiliad diogelwch microbiolegol, rheolaeth pla, rheoliadau amgylcheddol, lleihau'r risg o achlysur niwsans statudol, cynnal monitro perthnasol.
- Holl agweddau technegol / cyfreithiol deddfwriaeth oddi fewn i orchwyl y gwasanaeth mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus.
- Diogelwch cyhoeddus a rheolaeth torf.

Rôl Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd.

- Fe gynrychiolir y gwasanaeth gan swyddog fydd yn mynychu pob cyfarfod o'r GYD-G neu ei ddirprwy apwyntiedig ef neu hi.
- I weithredu mewn rôl cyd-drefnol i'r GYD-G yng nghyswllt yr holl faterion perthnasol i ymwneud a materion Rheolaeth Traffig a diogelwch y cyhoedd.
- I roi cyngor technegol ac asesiad o ddogfennau cyhoeddedig sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd yn ystod digwyddiadau cyhoeddus a gwneud yn hysbys unrhyw oblygiad sy'n codi.
- I roi cefnogaeth dechnegol sy'n ymwneud â holl faterion perthnasol i'r digwyddiad i GYD-G.
- I gynghori, monitro, adolygu cynnig arweiniad i ymwneud a Deddf Rheolaeth Traffig 2004 ac unrhyw amodau eraill i ymwneud a thraffig a chynghori mewn ymgynghoriad ag aelodau GYD-G. Gall hyn gynnwys: darparu gorchymyn i gau'r ffordd fawr a chynghori ar reolaeth traffig gan gynnwys cyngor ac arweiniad ar sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn perthynas â materion i ymwneud a thraffig, llif a rhediad traffig, wastad yn edrych i leihau'r risg o drafferthion traffig, cynnal monitro perthnasol.

Rôl y Gwasanaethau Brys.

Fe gynrychiolir pob gwasanaeth gan swyddog fydd a phrofiad / gallu a chymwysterau (neu eu dirprwy) / sydd ag awdurdod llawn o'r gwasanaeth perthnasol i roi cyngor ac arweiniad a chynnig awgrymiadau ar faterion diogelwch a chyngor ar:

- Holl faterion technegol a chyfreithiol mewn perthynas â chyfraith sydd yn berthnasol i'r gwasanaeth ac yn berthnasol i ddigwyddiadau cyhoeddus.
- Diogelwch y cyhoedd a rheolaeth torf.

SWYDDOGION GRŴP YMGYNGHOROL DIOGELWCH GWYNEDD.

Cadeirydd: Uned Digwyddiadau Cyngor Gwynedd.

Gweinyddydd: Gwasanaeth Gweinyddiaeth Cyngor Gwynedd.

AMSERLEN WEITHREDOL GRŴP YMGYNGHOROL DIGWYDDIADAU GWYNEDD.

O'r 1af o Ionawr 2020 bydd Grŵp GYD-G yn gweithredu'r termau gorchwyl yma a bydd yn ei wneud yn hysbys i reolwyr digwyddiadau ac eraill a fyddai â diddordeb.

Yr arweiniad o wahodd digwyddiadau i fynychu cyfarfod GYD-G fydd os yw digwyddiad yn cynnig risg sylweddol i ddiogelwch cyhoeddus (unai mewn term o niferoedd o bobl fydd yn mynychu neu sydd yn creu sialensiau amgylcheddol).

Gallai GYD-G benderfynu estyn gwahoddiad i rai digwyddiadau fynychu cyfarfod ffurfiol o'r Grŵp neu Is Grŵp GYD-G, bydd y penderfyniad yma wedi ei seilio ar y math o ddigwyddiad a chriteria fel y nodir tanddo.

CRITERIA I DDIGWYDDIADAU GAEL EU HYSTYRIED I DDERBYN GWAHODDIAD I GYFARFOD O GRŴP YMGYNGHOROL DIGWYDDIADAU GWYNEDD.

- Digwyddiad newydd neu drefnydd digwyddiad newydd i'r Sir, os oes pryder yn cael ei godi gan unrhyw aelod o GYD-G.
- Unrhyw ddigwyddiad sydd yn cael ei adnabod neu ei godi fel mater o bryder gan unrhyw aelod o GYD-G sydd â chyfrifoldeb statudol.

AMODAU GORCHWYL A PROTOCOLS (GYD-G).

- Unrhyw ddigwyddiad proffil uchel sydd yn cymryd lle yn y Sir lle mae pryderon diogelwch.
- Unrhyw ddigwyddiad sydd yn gwneud cais i fynychu cyfarfod GYD-G.

DI-BRIFF.

Os teimlir bod o fudd, bydd digwyddiadau sydd wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd ffurfiol o GYD-G yn ystod y flwyddyn calendr yn cael ei gwahodd i fynychu di-briff ffurfiol a fydd yn cael ei drefnu a'i weinyddu gan GYD-G ar ol y digwyddiad.

CYFARFODYDD.

Bydd holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn iaith y trefnydd digwyddiadau (Cymraeg & Saesneg) Bydd Agenda a gwahoddiad i bob cyfarfod yn cael ei ddarparu a'i anfon allan yn ddwy iaith i oll. Bydd holl gofnodion y cyfarfodydd yn cael ei darparu yn iaith y cyfarfod a'i gyfieithu os bydd cais.

Diweddarwyd V3 14-01-20-hej.